# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 23 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

6 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Dreftadaeth

9 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

10 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55912)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55911)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth oedd cyfanswm y gwariant ar Gronfa Ddysgu Undebau Cymru ym mhob blwyddyn ers ei sefydlu, a faint sydd yn y gyllideb ar gyfer y Gronfa hon dros weddill y tymor Cynulliad hwn. (WAQ55907) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Er i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru gael ei lansio yn 1999, y cofnodion gwariant cynharaf sydd ar gael yw'r rhai ar gyfer 2001-2002. Byddai costau darparu'r wybodaeth ar gyfer y cyfnod cyn 2001-2002 yn afresymol.

Nodir cyfanswm y gwariant ar Gronfa Ddysgu Undebau Cymru ers 2001-2002 yn y tabl isod.

| **Blwyddyn Ariannol** | **Gwariant WULF** |
|---|---|
| | |
| 2001-2002 | £334,600 |
| 2002-2003 | £477,956 |
| 2003-2004 | £308,094 |
| 2004-2005 | £556,270 |
| 2005-2006 | £837,481 |
| 2006-2007 | £835,653 |
| 2007-2008 | £694,228 |
| 2008-2009 | £1,031,573 |
| 2009-2010 | £947,938 (hyd heddiw) |

Y gyllideb ar gyfer Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ar gyfer gweddill tymor y Llywodraeth hon yw £1.3m ar gyfer 2009-2010 a £1.5m ar gyfer 2010-2011.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog restru'r talai, y dyddiad a phwrpas pob taliad a wnaed dan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru ers ei sefydlu. (WAQ55908) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 25 Mawrth 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol. Byddai'n cymryd llawer o amser i gasglu'r holl wybodaeth at ei gilydd a byddai angen adnoddau ychwanegol h.y. Swyddog Cymorth Tîm a fyddai'n costio tua £7,000.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** I ba bwrpas y sefydlwyd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru. (WAQ55909) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths)*:*** Sefydlwyd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru er mwyn cynyddu cyfraniad Undebau Llafur i'r eithaf wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r gweithlu. Mae'r Gronfa'n ceisio meithrin gallu o fewn mudiad yr Undebau i gynyddu gweithgareddau dysgu gydag unigolion a chyflogwyr i'r eithaf. Cydnabyddir yn gynyddol bod mudiad yr Undebau Llafur mewn sefyllfa unigryw i hybu'r neges ddysgu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu ymhlith unigolion a chyflogwyr.

Mae nodau'r gronfa fel a ganlyn:

- cefnogi gweithgaredd dysgu o dan arweiniad Undebau Llafur mewn partneriaeth â chyflogwyr ac eraill sy'n ychwanegu gwerth amlwg at fathau eraill o ddysgu a ariennir yn gyhoeddus;
- gwella sgiliau'r gweithlu;
- annog mwy o bobl nad ydynt wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn draddodiadol i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath;
- goresgyn rhwystrau i ddysgu sy'n deillio o ffactorau strwythurol, personol, galwedigaethol neu ffactorau sy'n ymwneud â gwaith.

Drwy arloesi a gweithio'n galed ar y cyd, mae'r Undebau Llafur, darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod pobl yn cael hyfforddiant na fyddai ar gael iddynt fel arall a'u bod yn cael budd o'r hyfforddiant hwnnw.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**: O'r tri chais a ddaeth i law ar gyfer tendr y Gwasanaeth Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd yn 2006/07, a wnaeth yr ymgeisydd llwyddiannus gynnig y pris isaf a pha ffactorau eraill y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddyfarnu'r tendr. (WAQ55910)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Cafodd y tri chynnig a ddaeth i law yn ystod y cyfnod tendro gwreiddiol ar gyfer y gwasanaeth awyr eu hasesu yn erbyn gofynion y cymhorthdal ac amrywiaeth o wybodaeth am safon. Tendr Highland Airways a oedd yn cynnig y fantais economaidd orau.

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55914) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylched, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn

enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy’n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio’r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55917)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r newyddion diweddaraf am symudiadau tuag at sefydlu Tribiwnlys Cyflafareddu Trigolion Cartrefi mewn Parciau. (WAQ55751) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar Offerynnau Statudol a fydd yn trosglwyddo'r broses o ddatrys anghydfodau o'r llys sirol i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, yn ddiweddar rwyf wedi penderfynu y byddai o fwy o fudd i Gymru lunio deddfwriaeth ar wahân ar gyfer ein Tribiwnlys Eiddo Preswyl ein hunain a fyddai hefyd yn ein galluogi i amrywio'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol i ddiwallu anghenion polisïau cartrefi parc yng Nghymru. Bydd trosglwyddo'r broses o ddatrys anghydfodau o'r llysoedd sirol i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn gwneud y broses yn llai llafurus a disgwylir y bydd mwy o bobl yn dilyn y llwybr hwn yn hytrach na mynd drwy'r llysoedd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Brian Gibbons (Aberafan):** Fesul Ymddiriedolaeth GIG, beth oedd y gwariant ar nyrsys asiantaeth a banc yng Nghymru dros y tair blynedd ariannol diweddaf yr adroddwyd arnynt. (WAQ55906)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu gwybodaeth am wariant ar nyrsys banc. Mae gwariant pob un o Ymddiriedolaethau'r GIG ar nyrsys asiantaeth dros y tair blynedd ariannol diwethaf a gofnodwyd fel a ganlyn.

£000s

| Ymddiriedolaeth y GIG | 2006-07 | 2007-08 |
|---|---|---|
| Abertawe | 224 | 324 |
| Bro Morgannwg | 1,317 | 1,234 |
| Caerdydd a'r Fro | 7,977 | 8,219 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 48 | 107 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 1,025 | 1,327 |
| Felindre | 357 | 184 |
| Gofal Iechyd Gwent | 452 | 572 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 741 | 445 |
| Gogledd Morgannwg | 576 | 652 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 3,740 | 4,084 |
| Pontypridd a Rhondda | 497 | 870 |
| Sir Benfro a Derwen | 811 | 867 |
| Sir Gaerfyrddin | 562 | 295 |
| **Cyfanswm** | 18,327 | 19,180 |

Ffynhonnell: Ffurflenni Ariannol Ymddiriedolaethau'r GIG

£000s

| Ymddiriedolaeth y GIG | 2008-09 |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | 9,599 |
| Cwm Taf | 1,416 |
| Felindre | 142 |

| | |
|---|---|
| Gofal Iechyd Gwent | 2,317 |
| Gogledd Cymru | 2,101 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 4,510 |
| Hywel Dda | 964 |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 1,888 |
| **Cyfanswm** | **22,937** |

Ffynhonnell: Ffurflenni Ariannol Ymddiriedolaethau'r GIG

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55915)***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymchwil i glefydau prin. (WAQ55919)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil i glefydau prin ac maent yn cefnogi gwaith ymchwil yn y maes fel a ganlyn:

- buddsoddiad parhaus ym Mharc Geneteg Cymru;
- cynnig cyfleoedd ariannu i ymchwilwyr yng Nghymru, drwy gynlluniau ariannu ymatebol, agored a chystadleuol, y mae ymchwilwyr sy'n diddori mewn clefydau prin yn gymwys i wneud cais amdanynt;

• ariannu seilwaith ymchwil clinigol Cymru gyfan, sy'n cynnal nifer fawr o dreialon clinigol mewn amrywiaeth eang o feysydd yn ymwneud â chlefydau.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drin clefydau prin. (WAQ55920)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth ar gyfer gwasanaethau integredig ym maes clefydau prin. (WAQ55921)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Mewn cydweithrediad â'r tair Adran Iechyd arall yn y DU, caiff asesiad o'r dull o ymdrin â chlefydau prin ei gynnal gan swyddogion yn unol ag Argymhellion yr UE. Mae hyn yn cynnwys archwilio strategaethau, diffiniadau o glefydau a chodau cyfredol, y defnydd o gronfeydd data a rhwydweithiau cyfeirio ar gyfer clefydau prin unigol.
O 1 Ebrill 2010, y Pwyllgor newydd ar Wasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n gweithio ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol ac ar y cyd â hwy, a fydd yn gyfrifol am gynllunio pob gwasanaeth arbenigol yn genedlaethol, gan gynnwys clefydau prin. Bydd hefyd yn gyfrifol am ariannu triniaethau ar gyfer clefydau prin yng Nghymru a chleifion o Gymru sy'n cael eu trin mewn canolfannau arbenigol penodol eraill.
Bydd y rhaglenni trin yn cynnwys cyffuriau a gymeradwywyd gan NICE a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ac a gefnogwyd gennyf yn sgîl hynny.
Bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn adolygu strategaethau a pholisïau clinigol gan gynnwys rheoli anhwylderau metabolig, haemoffilia, trawsblannu mêr esgyrn a gwaed, ffibrosis systig a phwysedd gwaed uchel pwlmonaidd.
Bydd y Cydbwyllgor yn sicrhau y caiff gofal ei integreiddio drwy bolisïau penodol, meini prawf clinigol mesuradwy a gwrthrychol y cytunwyd arnynt, a llwybrau pendant i atgyfeirio cleifion at wasanaethau arbenigol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cyfanswm gwariant terfynol ar ffliw moch yn y flwyddyn ariannol 2009/10. (WAQ55749)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Wrth reoli'r pandemig Ffliw Moch yng Nghymru yn ystod 2009-10 aed i wariant o tua £35 miliwn yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario hyd yn hyn ar ffliw moch ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o sut y cafodd yr arian hwnnw ei wario. (WAQ55750)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwario tua £35 miliwn wrth reoli'r pandemig Ffliw Moch yng Nghymru. Dangosir y prif eitemau gwariant yn y tabl isod. Nid yw hyn yn cynnwys costau gweinyddol yr aed iddynt gan staff Llywodraeth y Cynulliad.

| **Gwariant Ffliw Moch 2009-10** |
|---|
| Byrddau Iechyd – Cynllunio ac Ymateb |

| |
|---|
| Brechlynnau |
| Costau Meddygon Teulu a Fferyllfeydd |
| Cyfathrebu |
| Offer e.e., peiriannau anadlu ac anadlyddion |
| Defnyddiau traul e.e., mygydau wyneb a chyffuriau gwrthfeirysol |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55918)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55913)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny. Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar draws cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog i gymryd rhan yn y digwyddiad Awr Ddaear ar 27ain Mawrth 2010. (WAQ55916)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson)**: Menter fyd-eang WWF yw Awr Ddaear gyda'r nod o ddangos cefnogaeth pobl i weithredu er mwyn atal newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r ymgyrch yn gofyn i bobl ddod ynghyd a gwneud datganiad am eu pryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd, gan ddangos i arweinwyr y byd ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol, yn enwedig ar ôl negodiadau Copenhagen y llynedd ar newid yn yr hinsawdd. Mae WWF yn ymgyrchu i gael sefydliadau, prif adeiladau a strwythurau amlwg, cymunedau ac unigolion i ddiffodd eu goleuadau am awr am 8.30 pm ar 27 Mawrth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth uniongyrchol i WWF i hyrwyddo'r digwyddiad yn eang yng Nghymru, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y ddwy iaith yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys llunio tri phecyn cymorth wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymuno a chymryd rhan. Rydym wedi darparu arian sydd wedi cefnogi'r prif ddigwyddiad ar gyfer y min nos ym Mae Caerdydd, ac wedi galluogi creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata dwyieithog, gan gynnwys cardiau post ymuno.

Byddwn yn cymryd rhan yn uniongyrchol drwy ddiffodd y goleuadau yn ein hystad ac rydym yn annog cyrff sector cyhoeddus eraill ledled Cymru i wneud yr un fath.
Bydd y goleuadau'n cael eu diffodd ar adeiladau hanesyddol amlwg gan gynnwys Castell Caernarfon, Castell Coch, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, a Chastell Rhuddlan ymysg eraill.

Rydym wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn bwriadu cymryd rhan hyd yn hyn a'u hannog i wneud hynny.  Er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch ledled Cymru, rhoddwyd tortsh panda a gaiff ei weindio i bum ysgol o bob rhanbarth o Gymru, a byddant yn cynnal gweithgareddau'r wythnos hon gan gadw'r dortsh ynghynn yn ystod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i dynnu sylw'r gymuned ehangach at Awr Ddaear.